



Meini prawf i fusnesau

**STATWS**  
**"CYMERADWYWYD"**



# Cynnwys

- 1.0 Amodau Cymryd Rhan yng Nghynllun Cymeradwyo Croeso Cymru**
- 1.1 Datganiad Mynediad
- 1.2 Gwella eich Hygyrchedd
- 1.3 Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd
- 1.4 Naws am Le
- 2.0 Llety**
- 2.1 Llety â Gwasanaeth
- 2.2 Llety Hunanddarpar
- 2.3 Parciau Carafanau Gwyliau, Teithio a Gwersylla, a Safleoedd Glampio
- 2.4 Cartref Gwyliau Carafan a Osodir
- 2.5 Cod Ymddygiad ar gyfer Llety
- 3.0 Atyniadau i Ymwelwyr**
- 3.1 Atyniadau, Teithiau, Gweithgareddau
- 3.2 Cod Ymddygiad ar gyfer Atyniadau
- 4.0 Newid Perchenogaeth**
- 5.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Penderfyniad a Roddwyd**

## 1.0 Amodau Cymryd Rhan yng Nghynllun Cymeradwyo Croeso Cymru

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau Croeso Cymru:

- Ddilyn Cod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Bodloni gofynion sylfaenol meini prawf "Cymeradwywyd".
- Caniatáu i gynrychiolydd o Croeso Cymru neu ar ran Croeso Cymru gael mynediad rhesymol i'r busnes, ar gais, er mwyn sicrhau bod gofynion statws "Cymeradwywyd" a'r "Cod Ymddygiad" yn cael eu bodloni'n llawn.
- Darparu datganiad mynediad/canllaw hygyrchedd.
- Rhaid i bob busnes gyflawni ei Rwymedigaethau Statudol.
- Ni all unrhyw fusnes sy'n cynnig llety i breswylwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau nac sy'n gweithredu fel hostel lloches gymryd rhan yn y cynllun.
- Brandio Croeso Cymru. Pan na fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn cymryd rhan yng Nghynllun Cymeradwyo Croeso Cymru mwyach, rhaid cael gwared ar unrhyw dystysgrifau perthnasol a logos cysylltiedig Croeso Cymru a thestun ar ddeunydd argraffedig ar unwaith. Os na wneir hyn, ni fydd modd i'r sefydliad arddangos na defnyddio ardstiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd o gwbl.

### 1.1 Datganiad Mynediad

Beth yw Datganiad Mynediad? Cyfrif clir, cywir a gonest yw hwn o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y gall ymwelwyr anabl eu disgwyl NAWR, gan eu galluogi i ddewis y lleoliad sydd fwyaf addas iddynt.

**NODER:** Un o amodau cael eich cymeradwyo gan Croeso Cymru yw bod yn rhaid llunio datganiad mynediad a nodi pa mor hygyrch yw eich busnes. Dylai gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau dros amser, a dylai fod ar gael i ddarparu westeion. Mae'n syniad da rhoi'r Datganiad Mynediad ar-lein fel arfer.

Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Mynediad, ewch i: [www.visitbritain.org/business-advice/make-your-business-accessible/create-accessibility-guide](http://www.visitbritain.org/business-advice/make-your-business-accessible/create-accessibility-guide)

### 1.2 Gwella eich Hygyrchedd

Mae gan lawer o bobl anghenion mynediad, fel y rhai â nam ar eu clyw ac ar eu golwg, pobl sydd mewn cadair olwyn, pobl llai symudol, a phobl â bygis.

Mae'r farchnad twristiaeth hygyrch yn tyfu am fod y boblogaeth yn heneiddio.

Drwy wneud addasiadau bach i'ch cyfleusterau, rhoi gwybodaeth am ba mor hygyrch ydych chi, a deall anghenion pobl anabl, bydd eich busnes yn apelio i fwy o ymwelwyr ac yn denu cwsmeriaid craidd. Ar hyn o bryd, mae mwy o lety i bobl anabl na'r galw presennol amdano.

Dysgwch sut mae busnesau twristiaeth eraill yn cael budd o'r farchnad deyrngar hon yn [www.visitengland.org/access](http://www.visitengland.org/access)

### 1.3 Cynaliadwyedd

Mae diogelu a gwarchod ein planed rhag effaith ddiistriol bywyd modern yn fater pwysig i fwy a mwy o bobl. Os nad ydych yn gwneud eisoes, hoffem eich gwahodd i ystyried sut y gallech wneud newidiadau bach i'r ffordd rydych yn rhedeg eich busnes er mwyn dangos i'ch ymwelwyr eich bod yn cymryd camau ecogyfeillgar. Gall hyn helpu i wella profiad gwesteion sy'n talu a hefyd helpu'r economi leol rydych yn rhan ohoni. Gall wneud synnwyr busnes da, drwy leihau eich costau a gwneud mwy o elw.

### 1.4 Naws am Le

Er nad yw ansawdd byth yn colli ei blwyf, bydd creu Naws am Le yn helpu i sicrhau bod eich ymwelwyr yn cael profiad bythgofiadwy.

Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd at eich busnes er mwyn creu naws lleol. Neu beth am ddysgu ffeithiau diddorol am eich ardal i'w rhannu â'ch ymwelwyr? Mae 'croeso' syml hefyd yn creu argraff gyntaf arbennig o dda.

Dyma drosolwg o frand Cymru a rhywfaint o arweiniad ar ein naws am le. Gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i gynnig profiad heb ei ail i'ch ymwelwyr.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael rhagor o wybodaeth.

## 2.0 Llety

---

### 2.1 Llety â Gwasanaeth

Yn cynnwys gwestai, llety gwesteion, hosteli â gwasanaeth, Campws a Phentref Gwyliau.

#### Cyffredinol

Er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid o ran llety twristiaid "addas at y diben", mae Croeso Cymru yn disgwyl i chi fodloni'r gofynion isod a'r gofynion a nodir yn y Cod Ymddygiad yn llawn bob amser.

#### Cadw tŷ/glendid

— Mae glendid yn hynod bwysig i westeion ym mhob math o sefydliad. Rhaid i lety gyrraedd safon uchel sydd i'w gweld yn yr eiddo cyfan.

#### Cynnal a chadw

— Rhaid cynnal a chadw'r llety yn dda. Dylai'r eiddo fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, ac ni ddylai fod unrhyw arwyddion o leithder nac ychwaith fod y lle yn mynd â'i ben iddo.

#### Rheolwyr

- Rhaid sicrhau bod y rheolwyr/perchenogion ar gael pan fydd gwesteion yn cyrraedd, neu dylid rhoi gwybod iddynt am drefniadau amgen ymlaen llaw.
- Dylai'r rheolwyr/perchenogion fod ar gael pan fydd gwesteion yn cyrraedd ac yn gadael, ac yn ystod pob pryd bwyd.
- Rhaid sicrhau bod gwesteion yn gwybod sut i gael cymorth mewn argyfwng, yn enwedig gyda'r nos.

#### Mannau Cyhoeddus

— Rhaid cynnal a chadw'r holl fannau cyhoeddus yn dda.

#### Ystafelloedd Gwely

- Gwely glân sydd mewn cyflwr da.
- Rhaid darparu dillad gwely glân ar gyfer gwesteion newydd. Dylid sicrhau bod gorchuddion matresi ar gael. Mae hefyd yn arfer orau defnyddio gorchuddion gobenyddion. DS – Nid yw cynfasau sydd wedi'u gwneud o ffeibrau artiffisial yn unig yn dderbyniol.
- Rhaid sicrhau gwres a goleuadau yn dderbyniol.
- Dylai fod o leiaf un soced hawdd ei gyrraedd.
- Dylai fod modd agor un ffenestr o leiaf, neu dylai fod system awyru briodol os na ellir agor ffenestri.
- Rhaid cynnal a chadw'r lloriau yn dda.

- Rhaid sicrhau bod llenni, bleinds neu gaeadau ar bob ffenestr.
- Dylid darparu cwpwrdd dillad neu le i hongian dillad.

#### Ystafelloedd Ymolchi

- Rhaid sicrhau bod o leiaf 1 ystafell â bath neu gawod a thoiled, teclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach, basn golchi dwylo, a dŵr poeth a dŵr oer bob amser. Rhaid bod allwedd ar gael ar gyfer pob ystafell ymolchi breifat.
- Mae angen bachyn dillad a drych.
- Dylai fod llenni, bleinds neu gaeadau ar y ffenestri.
- Mae angen system awyru ar bob en suite/ ystafell ymolchi fewnol sydd heb ffenestr sy'n agor.
- Mae angen gwres ar bob en suite/ystafell ymolchi sydd â ffenestr sy'n agor.
- Goleuadau digonol, a goleuadau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer ystafelloedd ymolchi.
- Clo neu follt mewnol.

---

### 2.2 Llety Hunanddarpar

Yn ogystal â bythynnod a fflatiau traddodiadol, mae hefyd yn cynnwys hosteli hunanarlwyo, tŷ bynciau, campws a phentref gwyliau.

#### Cyffredinol

Er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid o ran llety twristiaid "addas at y diben", mae Croeso Cymru yn disgwyl i chi fodloni'r gofynion isod a'r gofynion a nodir yn y Cod Ymddygiad yn llawn bob amser.

#### Cadw tŷ/glendid

— Mae glendid yn hynod bwysig i westeion ym mhob math o sefydliad. Rhaid i lety gyrraedd safon uchel sydd i'w gweld yn yr eiddo cyfan.

#### Cynnal a chadw

— Rhaid cynnal a chadw'r llety yn dda. Dylai'r eiddo fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, ac ni ddylai fod unrhyw arwyddion o leithder nac ychwaith fod y lle yn mynd â'i ben iddo.

#### Rheolwyr

- Rhaid sicrhau bod y rheolwyr/perchenogion ar gael pan fydd gwesteion yn cyrraedd, neu dylid rhoi gwybod iddynt am drefniadau amgen ymlaen llaw.
- Rhaid sicrhau bod gwesteion yn gwybod sut i gael cymorth mewn argyfwng, yn enwedig gyda'r nos.

### Mannau Cyhoeddus

- Dylai fod digon o seddi a bwrdd digon mawr ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion a hysbysebir.
- Dylid darparu cadeiriau a/neu sofffa, a digon ohonynt ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion a hysbysebir.
- Mae angen digon o olau a gwres.

### Ystafelloedd Gwely

- Gwely glân sydd mewn cyflwr da.
- Rhaid darparu dillad gwely glân ar gyfer gwesteion newydd. Dylid sicrhau bod gorchuddion matresi ar gael. Mae hefyd yn arfer orau defnyddio gorchuddion gobenyddion. DS – Nid yw cynfasau sydd wedi'u gwneud o ffeibrau artiffisial yn unig yn dderbyniol.
- Rhaid sicrhau gwres a goleuadau yn dderbyniol.
- Dylai fod modd agor un ffenestr o leiaf, neu dylai fod system awyru briodol os na ellir agor ffenestri.
- Dylai fod o leiaf un soced hawdd ei gyrraedd.
- Rhaid cynnal a chadw'r lloriau yn dda.
- Rhaid sicrhau bod llenni, bleinds neu gaeadau ar bob ffenestr.
- Dylid darparu cwpwrdd dillad neu le i hongian dillad.

### Ystafelloedd Ymolchi

- Rhaid sicrhau bod o leiaf 1 ystafell â bath neu gawod a thoiled, teclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach, basn golchi dwylo, a dŵr poeth a dŵr oer bob amser.
- Mae angen bachau dillad a drych.
- Dylai fod llenni, bleinds neu gaeadau ar y ffenestri.
- Mae angen gwres ar bob en suite/ystafell ymolchi sydd â ffenestr sy'n agor.
- Mae angen system awyru ar bob en suite/ystafell ymolchi fewnol sydd heb ffenestr sy'n agor.
- Goleuadau digonol, a goleuadau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer ystafelloedd ymolchi.
- Clo neu follt mewnol.

### Cegin

- Darparu dull o goginio, oergell, lle i storio bwyd, lle i baratoi bwyd, a chyfleuster i olchi llestri.
- Cyfleuster i daflu sbwriel.
- Digon o lestri ac offer cegin priodol ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion a hysbysebir.
- Goleuadau a dulliau awyru digonol.

## 2.3 Parciau Carafanau Gwyliau, Teithio a Gwersylla, a Safleoedd Glampio

### Cyffredinol

Er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid o ran llety twristiaid "addas at y diben", mae Croeso Cymru yn disgwyl i chi fodloni'r gofynion isod a'r gofynion a nodir yn y Cod Ymddygiad yn llawn bob amser.

Rhaid sicrhau bod gennych y drwydded briodol ar gyfer y math o safle a weithredir, neu eich bod wedi cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer, neu fod awdurdod/corff perthnasol wedi darparu tystiolaeth swyddogol eich bod wedi cael eich eithrio o orfod cael trwydded ar gyfer y safle.

Rhaid i'r carafanau gwyliau y gellir eu llogi ar y safle gydymffurfio â Safon Ewropeaidd EN 1647 neu Safon Brydeinig BS 3632, bod o fath masnachol, a bodloni holl ofynion Cartrefi Gwyliau Carafanau i'w Llogi a nodir yn yr adran nesaf.

### Rheolwyr

- Rhaid sicrhau bod y rheolwyr/perchenogion ar gael pan fydd gwesteion yn cyrraedd, neu dylid rhoi gwybod iddynt am drefniadau amgen ymlaen llaw.
- Rhaid sicrhau bod gwesteion yn gwybod sut i gael cymorth mewn argyfwng, yn enwedig gyda'r nos.

### Cynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r parc/maes carafanau cyfan, gan gynnwys y prif gyfleusterau fel ystafelloedd hamdden, bariau, ardaloedd chwarae ac ati, yn dda. Dylai pob adeilad ar y safle fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, ac ni ddylai fod unrhyw arwyddion o leithder nac ychwaith fod y lle yn mynd â'i ben iddo.

### Cadw tŷ/glendid

- Mae glendid yn holl bwysig i westeion sy'n aros mewn parciau carafanau a gwersylla, ac ar safleoedd glampio, a rhaid cyrraedd safon gyson uchel o lendid ym mhob man.

### Toiledau/Cawodydd

- Os ydynt ar gael, rhaid iddynt fod yn lân, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, wedi'u goleuo'n ddigonol, a chael cyflenwad digonol o ddŵr poeth a dŵr oer. Rhaid i bob toiled/cawod a ddarperir gynnwys y canlynol:
  - Bachau ar gyfer dillad.
  - Teclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach.

- Bin gwaredu cynhyrchion mislif ym mhob bloc i fenywod.
- Basnau golchi dwylo â phlygiau.
- Cyfleusterau sychu dwylo.
- Drws a/neu len ym mhob cawod.

### Cyfleusterau Parciau

- Rhaid bod arwyddion ar gyfer yr holl gyfleusterau fydd yn cael eu defnyddio yn y parc.
- Dylid darparu digon o finiau sbwriel, a dylid annog pobl i ailgylchu.
- Dylid darparu cyfleusterau gwaredu gwastraff cemegol lle y bo'n briodol, gyda thap a pheipen i olchi casetiau.
- Rhaid darparu tap dŵr yfed.
- Os darperir cyfleuster i olchi potiau, rhaid iddo fod yn lân, cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a rhaid sicrhau bod cyflenwad digonol o ddŵr poeth a dŵr oer.

### Llety Glampio

- Gwely/ardal gysgu lân sydd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda.
- Rhaid darparu dillad gwely glân ar gyfer gwesteion newydd. Dylid sicrhau bod gorchuddion matresi ar gael. Mae hefyd yn arfer orau defnyddio gorchuddion gobenyddion. DS – Nid yw cynfasau sydd wedi'u gwneud o ffeibrau artiffisial yn unig yn dderbyniol.
- Os darperir cyfleusterau coginio, golchi sosbenni a storio bwyd, rhaid iddynt gael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Rhaid sicrhau bod toiledau/cawodydd yn lân, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a'u goleuo'n ddigonol.

## 2.4 Cartref Gwyliau Carafán ar Osod

Yn gymwys i lety ar osod a ddarperir mewn carafanau sefydlog e.e. Carafanau unigol sydd ar fferm neu ger preswylfa breifat, carafanau preifat mewn parciau carafanau sydd wedi'u graddio a'u cymeradwyo gan Croeso Cymru.

### Cyffredinol

Er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid o ran llety twristiaid "addas at y diben", mae Croeso Cymru yn disgwyl i chi fodloni'r gofynion isod a'r gofynion a nodir yn y Cod Ymddygiad yn llawn bob amser.

### Rheolwyr

- Rhaid sicrhau bod y rheolwyr/perchenogion ar gael pan fydd gwesteion yn cyrraedd, neu dylid rhoi gwybod iddynt am drefniadau amgen ymlaen llaw.
- Rhaid sicrhau bod gwesteion yn gwybod sut i gael cymorth mewn argyfwng, yn enwedig gyda'r nos.

### Cadw tŷ/glendid

- Mae glendid yn hynod bwysig i westeion ym mhob math o sefydliad. Rhaid i lety gyrraedd safon uchel sy'n gyson ymhob rhan o'r cartref gwyliau carafán.

### Cynnal a chadw

- Rhaid cynnal a chadw'r llety yn dda. Dylai'r garafán/cartref gwyliau fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, ac ni ddylai fod unrhyw arwyddion o leithder nac ychwaith fod y lle yn mynd â'i ben iddo.

Rhaid i'r carafanau y gellir eu llogi ar y safle gydymffurfio â Safon Ewropeaidd EN 1647 neu Safon Brydeinig BS 3632, bod o fath masnachol, a bodloni'r holl ofynion canlynol:-

- Ni ddylid caniatáu i fwy o bobl na'r hyn a nodir gan y gwneuthurwr aros mewn carafán.
- Dylai fod wedi'i gosod ar sylfaen gwastad a dylai'r grisiau i bob drws fod wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Dylai fod gwres, goleuadau a dulliau awyru digonol.
- Dylai fod ystafell ymolchi fewnol â bath a/neu gawod, toiled â theclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach, basn golchi dwylo, a chyflenwad o ddŵr poeth a dŵr oer bob amser.
- Dylai fod modd coginio bwyd a gwneud diodydd poeth, a dylid darparu digon o lestri ac offer coginio ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion a hysbysebir.
- Dylai fod ffwrn, gril ac o leiaf dri chylch coginio.
- Dylai fod oergell â blwch ia, lle i olchi llestri, cyfleuster taflu sbwriel a lle i storio bwyd.
- Dylid gallu agor ffenestri, sydd â llenni neu fleinds.
- Gwely glân sydd mewn cyflwr da.
- Rhaid darparu dillad gwely glân ar gyfer gwesteion newydd. Dylid sicrhau bod gorchuddion matresi ar gael. Mae hefyd yn arfer orau defnyddio gorchuddion gobenyddion. DS – Nid yw cynfasau sydd wedi'u gwneud o ffeibrau artiffisial yn unig yn dderbyniol.

- Rhaid darparu draeniau, dŵr a thrydan prif gyflenwad, a nwy (prif gyflenwad neu botel).
- Rhaid bod cysylltiad â system draenio dŵr budr addas.

## 2.5 Cod Ymddygiad ar gyfer Llety

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chadw at y Cod Ymddygiad canlynol:

- Rhaid trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu rywbeth tebyg a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio a diogelwch cymwys a rhwymedigaethau statudol eraill cymwys sydd ar waith.
- Rhaid cyrraedd safonau derbyniol o ofal a gwasanaeth i westeion, sy'n briodol ar gyfer y math o sefydliad.
- Rhaid cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer cynhyrchion bwyd ac arlwyo a ddarperir yn y llety, neu ragori arnynt.
- Rhaid i'r busnes gyrraedd safon uchel o lendid, a hynny'n gyson ymhob rhan o'r eiddo.
- Rhaid rhoi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfryngau/deunydd marchnata print neu ddigidol arall.
- Sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys ymhob proses a gweithdrefn a ddyfynnir, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau eraill. Rhaid hefyd nodi'n glir fanylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol ar adeg archebu.
- Dylai gwesteion gael datganiad polisi clir ar ganslo gwyliau ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, drwy e-bost, yn ogystal â'r wybodaeth a roddir mewn print.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu llety, ffioedd mynediad a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy.
- Rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu, ac wedi hynny, am unrhyw newid, os caiff y llety ei gynnig mewn anecs ar wahân neu rywbeth tebyg a dynodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran lefelau cysur a/ neu amwynderau i'r llety yn y sefydliad.
- Ar gais, rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os bydd angen, i westeion.
- Delio â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan westeion yn brydlon a chwrtais.
- Sicrhau bod gweithdrefnau delio â chwynion ar waith ac yr ymchwilir i bob cwyn a ddaw i law yn brydlon ac yn gwrtais, a bod y gwesteion yn cael gwybod y canlyniad.

- Rhoi sylw priodol i ofynion unigol gwesteion ag anabledau, a gwneud darpariaeth addas lle y bo'n gymwys.

## 3.0 Atyniadau i Ymwelwyr

Rhaid bodloni diffiniad Croeso Cymru o atyniad i ddechrau, sef cyrchfan gwibdaith parhaol, sydd â'r prif nod o ddiddanu, ennyn diddordeb neu addysgu, yn hytrach na bod yn safle manwerthu neu'n lleoliad chwaraeon, theatr neu ffilm yn bennaf. Rhaid iddo fod ar agor i'r cyhoedd heb orfod archebu ymlaen llaw, am gyfnodau o'r flwyddyn a gyhoeddir, a dylai allu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid. Os mai Taith neu Weithgaredd sydd dan sylw, yna gellir archebu ymlaen llaw.

Yn ail, yn ogystal â bodloni'r diffiniad uchod, rhaid i'r perchennog/rheolwyr ddilyn y Cod Ymddygiad canlynol yn ei gyfanrwydd a chadw ato.

### 3.1 Atyniadau, Teithiau, Gweithgareddau

#### Cyffredinol

Er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid o ran llety twristiaid "addas at y diben", mae Croeso Cymru yn disgwyl i chi fodloni'r gofynion isod a'r gofynion a nodir yn y Cod Ymddygiad yn llawn bob amser.

#### Cadw tŷ/glendid

- Mae glendid yn hynod bwysig i ymwelwyr ym mhob math o atyniad, a rhaid i bob ardal sydd ar gael iddynt gyrraedd safonau uchel o lendid.

#### Cynnal a chadw

- Rhaid i atyniadau, tir, adeiladau a chyfleusterau gael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Rhaid sicrhau bod unrhyw gyfarpar neu offer a ddefnyddir gan ymwelwyr mewn cyflwr da.
- Os cânt eu darparu, rhaid i safleoedd manwerthu, toiledau a chyfleusterau arlwyo gael eu cynnal a'u cadw'n dda.

#### Gwybodaeth i Ymwelwyr

- Rhaid i'r atyniad, profiad/gweithgaredd neu daith roi digon o wybodaeth i ymwelwyr.
- Rhaid i unrhyw ddehongli, boed ar lafar neu drwy arwyddion/paneli arddangos ac ati, gael eu cyflwyno'n dda er mwyn gwella profiad ymwelwyr.



---

## 3.2 Cod Ymddygiad ar gyfer Atyniadau

- Bydd rhwymedigaethau statudol yn amrywio yn dibynnu ar natur yr atyniad. Mae angen sicrhau bod gan bob atyniad yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu drefniant tebyg a chydymffurfio â'r holl rhwymedigaethau cynllunio a diogelwch cymwys a rhwymedigaethau statudol eraill cymwys sydd ar waith.
- Rhaid cyrraedd safonau derbyniol o ofal a gwasanaeth i westeion sy'n briodol ar gyfer yr atyniad. Rhaid cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer safleoedd/cynhyrchion bwyd ac arlwygo yn y llety, neu ragori arnynt.
- Rhaid i bob ardal gyrraedd safon uchel o lendid, a hynny'n gyson ymhob rhan o'r atyniad.
- Rhoi disgrifiad cywir i bob ymwelydd a darpar ymwelydd a ddaw i'r amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir mewn taflen neu gyfryngau/deunydd marchnata print neu ddigidol arall, a nodi unrhyw gyfyngiadau sylweddol wrth gyrraedd ar ddeunydd o'r fath.
- Dylai ymwelwyr gael datganiad polisi clir ar ganslo ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, drwy e-bost yn ogystal â gwybodaeth mewn print.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu ar gyfer y profiad a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy.
- Delio â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan ymwelwyr yn brydlon a chwrtais.
- Dangos yn glir wrth fynedfeydd cyhoeddus unrhyw daliadau mynediad/cyfranogi, gan gynnwys taliadau gwasanaeth a threthi (lle y bo'n gymwys), ac a oes unrhyw daliadau ychwanegol am atyniadau unigol.
- Rhoi sylw priodol i ofynion unigol ymwelwyr ag anabledau, a gwneud darpariaeth addas lle y bo'n gymwys.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ar waith ar gyfer delio â chwynion ac yr ymchwilir i bob cwyn sy'n dod i law yn brydlon ac yn gwrtais, a bod yr ymwelydd yn cael gwybod y canlyniad.
- Delio â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan ymwelwyr yn brydlon, proffesiynol a chwrtais.

## 4.0 Newid Perchenogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni all y radd bresennol gael ei throsglwyddo i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun gradd sêr Croeso Cymru.

## 5.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Penderfyniad a Roddwyd

Os na fyddwch yn cytuno â'r penderfyniad am eich busnes.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu anfonwch e-bost i [quality.tourism@llyw.cymru](mailto:quality.tourism@llyw.cymru) a gwnawn geisio helpu.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd  
Croeso Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR.



**OGL**

ISBN Digidol: 978-1-80195-626-0

© Hawlfraint y Goron 2021

WG41604



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Adran Sicrhau Ansawdd  
Croeso Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
Ceredigion, SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020

Ffacs: 0300 062 2081

E-bost: [quality.tourism@llyw.cymru](mailto:quality.tourism@llyw.cymru)